

Gwenynen durio fechan y clafrllys

(*Andrena marginata*)



Gwenynen durio fechan y clafrllys (*Andrena marginata*) benyw © Steven Falk



Cynefin ym Maes Tanio Castellmartin, Sir Benfro © Steven Falk

Mae enw Gwenynen durio fechan y clafrllys (*Andrena marginata*) yn tarddu o'i dibyniaeth ar baill o flodau'r clafrllys, yn enwedig y Clafrllys bach (*Scabiosa columbaria*). Gwyddom ei bod hefyd yn porthi ar ystod eang o blanhigion eraill am neithdar, yn cynnwys llwyni mieri, y bengaled, ysgall, Erwain (*Filipendula ulmaria*) a helygllys.

Mae'r gwrywod yn ddu neu'n frown tywyll ac mae gwaelod ei wyneb yn gymharol wyn gyda dau smoty bach du. Fel gyda Gwenynen durio fawr y clafrllys (*Andrena hattorfiana*), mae'r benywod i'w cael ar ffurf dywyll neu â streipiau coch. Mae'r rhywogaeth hon wedi ei dynodi fel un Nodedig a (Na) yn yr adolygiad diweddaraf o statws gwenyn, gwenyn meirch a morgrug ym Mhrydain Fawr (Falk, 1991).


Cylch bywyd

Bydd Gwenynen durio fechan y clafrllys yn hedfan rhwng canol mis Gorffennaf a diwedd mis Medi. Yn y DU, gall fodoli fel dwy boblogaeth ar wahân sydd ddim yn croesfridio. Mae un yn hedfan o ganol i ddiwedd Gorffennaf, mae'n gysylltiedig â phriddoedd calchaid a bydd yn porthi ar y Clafrllys bach a / neu Glafrllys y maes (*Knautia arvensis*) am baill. Mae'r llall yn hedfan ddiwedd Awst, mae'n gysylltiedig â phriddoedd asidig ac yn pori ar Damaid y cythraul (*Succisa pratensis*) am baill. Mae astudiaethau genynnol yn cael eu cynnal i ymchwilio i hyn. Byddant yn nythu ar dir golau â fawr ddim llystyfiant neu laswellt byr. Cofnodwyd cydgasgliadau o gannoedd o nythod mewn cytrefi cryfon.

Map dosbarthiad

Yng Nghymru, mae gan Wenynen durio fechan y clafrllys ddosbarthiad eang ond bratiog gyda phoblogaethau lleoledig i'w cael ar hyd arfordir De Cymru, yn enwedig ar Benrhynion Castellmartin a Gŵyr, a phoblogaethau mewndirol yng Nghwm Cynon, ger Pen-y-waun, a Thir Stent, Cader Idris.

Gwenynen durio fechan y clafrllys (*Andrena marginata*)



(Mae'r sgwariau coch yn dangos dosbarthiad rhwng 1990 a 2017; y sgwariau oren rhwng 1950 a 1989; sgwariau gwyn rhwng 1800 a 1949. Mae'r dyddiadau diweddaraf (uchaf) yn gorchuddio'r dyddiadau cynharach (rhaf is). Casglwyd y wybodaeth a ddefnyddiwyd yma trwy Atlas NBN a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru o'r ffynonellau canlynol: Cymdeithas Cofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug (BWARS), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru (Cofnod), Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBRc), a Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC). Lawrlwythwyd o Atlas NBN ar <http://nbnatlas.org>. Cyrchwyd 01 Mawrth 2018.)

Cynefin

Yng Nghymru, mae i'w chanfod fel arfer mewn cynefinoedd llawn clafrllys fel glaswelltiroedd heb eu gwella (rhai asidig a chalchaid - e.e. ym Mhen-y-waun, Rhondda Cynon Taf) a glaswelltiroedd ar ben clogwyni (e.e. Clogwyni Horton, Gŵyr; Pen Linney, Sir Benfro; ac Ynys Sgomer, Sir Benfro).

Achosion dirywiad

Mae'n debyg ei bod wedi dirywio o ganlyniad i golli cynefin trwy ddwysáu amaethyddol, datblygu, coedwigaeth fasnachol a sefydlogi clogwyni. Mae'n debyg bod newidiadau i ddefnydd tir traddodiadol wedi arwain at golli'r rhywogaeth hon ar rai safleoedd, unai trwy orbori, defnyddio gwrteithiau, neu effeithiau olyniaeth.

Rheoli cynefin

- Ceisiwch gynnal porfa agored gyda digonedd o flodau clafrllys dros gymaint â phosibl o gaeau a phecynnau tir;
- Dylech greu a chynnal ardaloedd glaswellt byr neu â fawr ddim llystyfiant mewn amodau heulog ar gyfer nythu (fel llethrau a thorlannau sy'n wynebu'r de);
- Crëwch ardaloedd newydd yn llawn clafrllys trwy adael ffermio â'r hau a phlannu clafrllys;
- Dylech osgoi pori neu dorri mewn ardaloedd llawn clafrllys rhwng mis Ebrill a mis Hydref. Hefyd, ceisiwch osgoi pori safle cyfan ar yr un pryd er mwyn gadael ardaloedd i flodeuo ar gyfer benywod sy'n porthi;
- Dylai gwaith rheoli fod yn afreolaidd ac mewn cylchdro er mwyn cynnal ardaloedd o laswellt byr a thywod agored mewn safleoedd nythu, a phorfa dalach gyda blodau clafrllys mewn ardaloedd porthi addas; a cheisiwch
- Osgoi defnyddio cemegion amaethyddol yng nghyffiniau safleoedd porthi.



Cynefin Gwenynen durio fechan y clafrllys ger Aber Llydan, Sir Benfro © Steven Falk.

Mwy o wybodaeth

Gellir ymweld â'r daflen hon ar y we ar www.buglife.org.uk

Mae'r wenyn hon wedi ei chynnwys yn adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Cymru, Buglife Cymru, y gellir ei lawrlwytho o www.buglife.org.uk/adroddiad-gwenyn-dan-fygythiad-cymru

Cymdeithas Cofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug www.bwars.com. Cyfrif rhywogaeth ar gyfer *Andrena marginata*.

Falk, S. J. (1991) A review of the scarce and threatened bees, wasps and ants of Great Britain. Research and Survey in Nature Conservation No. 35. Peterborough: Cyngor Gwarchod Natur.

Flickr: Steven Falk <https://www.flickr.com/photos/63075200@N07/sets/72157636941159814/>. Cyfrif rhywogaeth ar gyfer *Andrena marginata*.